



Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
A	Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y gwasanaethau gofal cymdeithasol	
1	Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella sut mae'r Gwasanaethau Plant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus, yn gywir, ac yn hawdd ei chyrchu mewn gwahanol fformatau, a datblygu cysylltiadau â chyfeirlyfr gwasanaethau Dewis.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth anabledd i sicrhau bod yna bontio a llwybrau di-dor o fod yn blant i fod yn oedolion	Mawrth 2019
3	Byddwn yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol priodol ar waith gan y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth er mwyn cydymffurfio â'n Dyletswydd Statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant MF5-52a (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)	Mawrth 2019 bob 6 mis
B	Byddwn yn hyrwyddo ac yn datblygu cysylltiadau cryf ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau	
1	Byddwn yn gweithredu Cynllun Cyflawni Rhanbarthol newydd Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2017/19 drwy sicrhau bod pedair egwyddor y Cynllun yn parhau i gael eu cefnogi :- i. Gweithio ar lefel strategol i oresgyn rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws grwpiau sydd ar gyrion cymdeithas. ii. Gweithio ar lefel leol i oresgyn rhwystrau ac integreiddio ar gyfer grwpiau penodol a chymunedau. iii. Cefnogi mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau lletyol yn ystod y broses integreiddio. iv. Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tensiynau ac eithafiaeth.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a chyhoeddi'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, boed yn sioeau amaethyddol, yn wyliau, yn garnifalau, yn arddangosfeydd, yn gyngherddau neu'n berfformiadau. MF5-85 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 a 12)	Mawrth 2019
C	Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion	
1	Byddwn yn clustnodi'r adnoddau ffisegol sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant eu poblogaeth drwy borth gwybodaeth penodedig ar-lein megis "Dewis.Cymru". (Hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)	Mawrth 2019
2	Byddwn yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gyfleusterau ysgol i gefnogi gweithgarwch cymunedol ehangach. (Cam gweithredu hefyd yn cynnwys Amcan 2, 8 ac 11) MF5-30	Mawrth 2020
3	Byddwn yn buddsoddi er mwyn gwella ansawdd sgiliau ein gweithlu i sicrhau ein bod yn bodloni Amcanion Llesiant ein poblogaethau a amlinellwyd ar lefel ardal leol. (Hefyd yn Amcan Llesiant 10)	Ebrill 2019
4	Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau gwe Synnwyr Arian er mwyn gwella incwm, datblygu cynnyrch a'i farchnata.	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
	<i>(I gynnig tystiolaeth ar effeithiolrwydd Synnwyr Arian, a fydd yn gwneud yr adnoddau'n fwy gwerthadwy i awdurdodau lleol eraill er mwyn cynhyrchu incwm.) (I wella hyder a gallu trigolion yn Sir Gaerfyrddin i ddelio â materion ariannol personol, a lleihau bod yn agored i dwyll ariannol.) (Cam gweithredu rhif 12612) (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i>	
5	Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol ac yn diogelu pobl agored i niwed rhag twyll ariannol drwy'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol. (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 5 a 11)	Mawrth 2019
6	Byddwn yn defnyddio elw troseddau ar draws y gwasanaethau rheoleiddio i amddiffyn pobl	Mawrth 2019
7	Byddwn yn datblygu amrywiaeth o opsiynau a fydd yn gwobrwyo tenantiaid am ofalu am eu cartref.	Mawrth 2019
D	Byddwn yn parhau i gefnogi Cymunedau Mwy Diogel gyda'n partneriaid	
1	Byddwn yn sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol	Mawrth 2019
3	Byddwn yn lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol	Mawrth 2019
4	Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion y gwasanaethau plant ac oedolion drwy ddarparu cyngor, cymorth a mewnbwn uniongyrchol i dimau rheng flaen. (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 1)	Mawrth 2019
5	Byddwn yn ymateb i Adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru Swyddfa Archwilio Cymru, a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ac Awdurdodau Lleol	Mawrth 2019
6	Byddwn yn gweithredu'r cynllun ar gyfer y 'Ddyletswydd Atal' (i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth) a ddatblygwyd gyda phartneriaid yng nghyfarfod Bwrdd y CONTEST (strategaeth wrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig)	Mawrth 2019
7	Byddwn yn sefydlu ymagwedd person-ganolog at ddiogelu, sy'n sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed ac yn ganolog i benderfyniadau a wneir. (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2019
8	Byddwn yn adolygu contractau'r trydydd sector i sefydlu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a thrawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd meddwl ac anabledau dysgu.	Gorffennaf 2018
9	Byddwn yn cynyddu cyfartaledd y dyddiau calendr a gymerir i atgyweirio'r holl oleuadau stryd diffygiol (THS/009) (Canlyniad 2017/18- 6.41 diwrnod)	4 diwrnod
10	Byddwn yn cynnal ac yn ymdrechu i leihau ymhellach y lefelau trosedd isel, sydd eisoes ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr (5.1.1.2) Cam gweithredu a Mesur (Ffigurau 2017/18 – 10,137)	Mawrth 2019
11	Byddwn yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol (5.1.1.3) Cam gweithredu a Mesur (Ffigurau 2017/18 – 5,810)	Mawrth 2019

Mesurau Llwyddiant
% sy'n dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned (Deillio o deimlad o berthyn, gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch.) (Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)
Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio) (Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)